

Achrediad Clybiau a Chymdeithasau



Pecyn Cymorth Gofynion Gorfodol

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gwblhau elfen Gofynion Gorfodol o Achrediad Cymdeithasau'r UM.



Cynnwys

Rhestr Gofynion Gorfodol	2
Cymeradwyaeth gan Bwyllgor Gwaith yr UM	2
Cyfansoddiad wedi'i Gyflwyno i'r UM	3
Rhestr y Pwyllgor wedi'i chyflwyno	3
Addewid Ymddygiad wedi'i gytuno.....	4
Dim Goddefgarwch, a beth mae hynny'n ei olygu?	4
Rolau Swyddogion Clwb.....	5
Asesiad Risg wedi'i gyflwyno i'r UM.....	5
Pam ydyn ni'n asesu risg?	6
Beth yw asesiad risg?	6
Asesiadau Risg Craidd	6
Asesiadau Risg Ychwanegol	6
Mynychu hyfforddiant Pwyllgor Gwaith ar gyfer Clybiau a Chymdeithasau	9
Rhestr modiwlau hyfforddiant.....	9
Cynnal CCB ac etholiadau Pwyllgor Gwaith bob blwyddyn academiaidd a chyflwyno'r cofnodion i'r UM	9
Felly beth yw cofnodion?	9
Gwybodaeth ychwanegol.....	10
Cofnodi Damweiniau	10
Diogelu Aelodau	11
Diogelwch Ar-lein	11
GDPR	11
Teithiau	13



Rhestr Gofynion Gorfodol

Nid yw'r gofynion gorfodol yn cyfrif tuag at gynydd ar unrhyw un o'r elfennau Achrediad, ond mae'n rhaid cwblhau'r pethau hyn er mwyn i chi fod yn gymdeithas gyfreithlon sy'n gallu symud ymlaen trwy Achrediad.

Mae'r gofynion gorfodol ar gyfer holl Glybiau a Chymdeithasau PCyDDS fel a ganlyn:

- Cymeradwyaeth gan Bwyllgor Gwaith yr UM
- Cyfansoddiad wedi'i gyflwyno i'r UM
- Rhestr y Pwyllgor wedi'i chyflwyno
- Addewid Ymddygiad wedi'i gytuno
- Asesiad Risg
- Mynychu hyfforddiant Pwyllgor Gwaith ar gyfer Clybiau a Chymdeithasau
- Cynnal CCB ac etholiadau Pwyllgor Gwaith bob blwyddyn academiaidd a chyflwyno'r cofnodion i'r UM

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys yr holl adnoddau y byddai eu hangen arnoch i symud ymlaen i'r cynllun Achrediad.

Am unrhyw gwestiynau ynghylch unrhyw un o'r camau hyn, cysylltwch â'ch Cydlynnydd Cyfleoedd Myfyrwyr:

- Llambod: laura-cait.driscoll@uwtsd.ac.uk
- Abertawe: Andrew.g.jones@uwtsd.ac.uk
- Caerfyrddin: Laura.yates@uwtsd.ac.uk
- Campysau Cyswllt: Rebecca.crane@uwtsd.ac.uk

Cymeradwyaeth gan Bwyllgor Gwaith yr UM



Rhaid i bob cymdeithas gael ei chymeradwyo gan Bwyllgor Gwaith yr UM cyn cael ei ffurfio, felly oni bai eich bod yn edrych trwy'r adnoddau cymorth hyn ymlaen llaw, cyn mynd ati i ffurfio'ch clwb, bydd hyn eisoes wedi digwydd.

Bydd Pwyllgor Gwaith yr UM yn cymeradwyo cais cymdeithas ar yr amod ei fod yn ateb meini prawf penodol, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd trwy'r cais yn drylwyr, ac mae croeso i chi estyn allan at eich Cydlynnydd Cyfleoedd Myfyrwyr os oes angen cymorth arnoch gyda'r cais.

[Dechreuwch Glwb neu Gymdeithas @ Undeb Myfyrwyr PCyDDS
\(uwtsdunion.co.uk\)](mailto:uwtsdunion.co.uk)

[Ffurflen Clwb / Cymdeithas Newydd \(office.com\)](http://office.com)

Cyfansoddiad wedi'i Gyflwyno i'r UM

Mae gan bob clwb a chymdeithas gyfansoddiad. Mae cyfansoddiad yn ddogfen ysgrifenedig sy'n trafod beth yw eich pwrpas, pwy sydd yn y gwahanol swyddi ar eich pwyllgor gwaith a beth yw eu diben; mae hefyd yn manylu ar sut mae'ch cymdeithas yn cynnal ei phrosesau democrataidd. Rydym yn gwybod y gall cyfansoddiadau fod yn gymhleth, yn enwedig os ydych chi'n ysgrifennu un am y tro cyntaf. Er mwyn eich helpu gyda hyn, rydym wedi paratoi enghraifft ddefnyddiol sy'n trafod yr adrannau y dylech eu cynnwys yn ogystal ag enghreifftiau, yn ogystal â thempled i wneud y fformatio'n llawer haws.

Efallai y bydd angen rhywfaint o help arnoch gyda hyn o hyd, ac mae hynny'n iawn. Cysylltwch â'ch Cydlynnydd Cyfleoedd Myfyrwyr!

Rhestr y Pwyllgor wedi'i chyflwyno

Rhaid i chi gyflwyno rhestr o aelodau'ch Pwyllgor Gwaith i'ch Cydlynnydd Cyfleoedd Myfyrwyr. Mae hyn yn sicrhau eich bod i gyd yn cael eich gwahodd i hyfforddiant Pwyllgor Gwaith, yn ogystal â derbyn yr holl ddiweddariadau a fydd yn berthnasol i redeg eich clwb.

Eich cyfrifoldeb chi yw diweddaru'r wybodaeth hon os bydd aelod o'ch Pwyllgor yn ymddiswyddo neu os ydych chi'n cynnal Cyfarfod Cyffredinol Brys i lenwi rôl wag.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys enw llawn y myfyriwr, yn ogystal â chyfeiriad e-bost / rhif myfyriwr. Gallwn hefyd ddefnyddio'r wybodaeth hon i'ch



helpu i ddiweddarau proffil eich clwb ar wefan yr Undeb er mwyn i ddarpar aelodau gysylltu â chi.

Addewid Ymddygiad wedi'i gytuno

Mae'r addewid ymddygiad yn rhestr benodol o ddisgwyliadau sy'n benodol i'ch clwb neu gymdeithas - pethau yr ydym fel cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr yn disgwyl i chi gydymffurfio â nhw. Gellir gweld y rhestr lawn o ddisgwyliadau ar gyfer myfyrwyr yn y Cod Ymddygiad Myfyrwyr, sydd i'w weld yn y ddolen hon: <https://www.uwtsdunion.co.uk/bye-laws#Code%20of%20Conduct>

Byddwn yn gofyn i chi gyflwyno'r addewid ymddygiad wedi'i gwblhau. Mae'r addewid ymddygiad fel a ganlyn:

Rydym ni, [nodwch enw'r clwb neu gymdeithas yma] o Gampws [nodwch y campws yma] yn cytuno i gynnal gwerthoedd Undeb y Myfyrwyr trwy addo gwneud safiad gweithredol yn erbyn hiliaeth, homoffobia, deuffobia, rhagfarn ar sail anabledd, rhywiaeth a thrawsffobia o fewn ein clwb neu gymdeithas a'r gymuned ehangach.

Rydym yn addo bod mor gynhwysol â phosibl, a byddwn yn gweithio gyda phob aelod o'r grŵp i sicrhau y gallant gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd, gydag addasiadau'n cael eu gwneud i greu clwb neu gymdeithas hygyrch.

Rydym yn addo lleihau'r risg o niwed lle bynnag y bo modd, trwy sicrhau bod ymwybyddiaeth o Gyffuriau ac Alcohol yn cael ei feithrin, a thrwy gymryd agwedd dim goddefgarwch tuag at Ddefodau Derbyn.

Ein nod yw hyrwyddo cynhwysiant trwy archwilio rolau swyddogion y clwb er mwyn sicrhau bod yr addewidion hyn yn cael eu cynnal a sicrhau y byddwn yn cysylltu â'r tîm Cyfleoedd Myfyrwyr os oes gennym unrhyw bryderon ynghylch cynhwysiant neu os oes angen cymorth arnom i wireddu ein haddewidion. Byddwn yn mynychu'r holl hyfforddiant a ddarperir gan Undeb y Myfyrwyr i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein rôl wrth sefyll yn erbyn hiliaeth, homoffobia, deuffobia, rhagfarn ar sail anabledd, rhywiaeth a thrawsffobia.

Dim Goddefgarwch, a beth mae hynny'n ei olygu?



Efallai eich bod yn ansicr beth mae Dim Goddefgarwch yn ei olygu, yn enwedig yng nghyd-destun 'Defodau Derbyn' ... Yn rhy aml mewn clybiau Prifysgol, gofynnir i aelodau gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd fel arfer yn cynnwys goryfed er mwyn cael eu 'derbyn' i'r clwb. Mewn rhai achosion, mae myfyrwyr wedi colli eu bywydau. Yn UM PCyDDS nid ydym yn dymuno i unrhyw un o'n clybiau neu gymdeithasau ddod yn rhan o'r ystadegau hyn, a llesiant myfyrwyr yw ein prif flaenoriaeth bob amser. Felly yn y bon, mae Dim Goddefgarwch yn golygu na chaniateir Defodau Derbyn nac unrhyw weithgaredd a all beri niwed diangen i unrhyw un o'ch aelodau.

Nid yw hynny'n dweud na all eich clwb neu gymdeithas fynd ati i gynnal gweithgareddau cymdeithasol. Felly, beth yw'r gwahaniaeth rhwng gweithgaredd cymdeithasol a Defodau Derbyn? Mae'n golygu bod parch at ffiniau eich aelodau yn bwysig. Os nad ydyn nhw'n dymuno yfed, does gennych chi ddim hawl i wneud iddyn nhw deimlo bod rhaid iddyn nhw wneud hynny. Os nad ydyn nhw am gymryd rhan mewn gweithgaredd penodol, gadewch iddyn nhw wyllo eraill yn cymryd rhan os dyna fyddai'n well ganddyn nhw. Os yw aelod wedi cael ychydig gormod i yfed, gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n cyrraedd adref yn ddiogel. Mae'n bwysig creu amgylchedd lle mae'ch aelodau'n teimlo'n ddiogel ac y gallant ddweud 'na'.

Rolau Swyddogion Clwb

Y peth cyntaf i'w nodi yw nad rôl ychwanegol ar y Pwyllgor Gwaith yw hon. Gall fod yn aelod cyfredol o'ch Pwyllgor Gwaith, neu'n aelod cyffredin, sy'n angerddol am sicrhau bod materion Rhyddhad a Llesiant yn cael sylw, ac y gall eich clwb anrhydeddu'r addewidion a wnaed fel rhan o Addewid Ymddygiad.

Chi sydd i benderfynu sut i wneud hyn; p'un a ydych yn dymuno rhannu'r cyfrifoldeb hwn ymhlith eich Pwyllgor Gwaith presennol neu annog eich aelodau i ymgymryd â'r rôl, y nod yw gwneud eich clwb neu gymdeithas yn amgylchedd croesawgar, diogel i chi a'ch aelodau.

Asesiad Risg wedi'i gyflwyno i'r UM



Nid yw lechyd a Diogelwch yn ymwneud â rheoli gwaith papur, mae'n ymwneud ag atal niwed. Dyna pam rydyn ni'n disgwyl i chi fod yn wybodus ynghylch y peryglon sy'n gysylltiedig â'ch gweithgareddau, a bod gennych chi gynllun clir ar gyfer y camau y byddwch chi'n eu cymryd i leihau'r risgiau hynny.

Pam ydyn ni'n asesu risg?

- Mae'n ofyniad cyfreithiol.
- Er mwyn rheoli risgiau ac ateb y meini prawf ar gyfer yswiriant
- Er mwyn ymateb i ofynion ac amgylchiadau newidiol
- Er mwyn cynnal diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol, ac mae'n bwysig o ran sicrhau y gallwch chi barhau i gynnal eich gweithgareddau'n ddiogel.

Beth yw asesiad risg?

Mae Asesiad Risg yn ffordd o...

- Nodi peryglon (beth all fynd o'i le)
- Nodi pwy all gael ei niweidio.
- Nodi'r camau (gweithredoedd) sy'n ofynnol i atal niwed.
- Cymryd perchnogaeth o reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'ch gweithgaredd.
- Caniatáu i risgiau gael eu cyfleu i'ch aelodau.

Asesiadau Risg Craidd

Rhaid i chi gyflwyno asesiad risg craidd o leiaf unwaith y flwyddyn, a fydd yn ymwneud â'ch holl weithgareddau craidd (unrhyw weithgaredd a restrir yn eich cyfansoddiad). Rhaid cyflwyno hwn i Gydlynnydd Cyfleoedd Myfyrwyr eich campws:

- Llambed: laura-cait.driscoll@uwtsd.ac.uk
- Abertawe: Andrew.g.jones@uwtsd.ac.uk
- Caerfyrddin: Laura.yates@uwtsd.ac.uk
- Campysau Cyswllt: Rebecca.crane@uwtsd.ac.uk

Asesiadau Risg Ychwanegol

Ar gyfer pob gweithgaredd / digwyddiad untro nad yw wedi'i gynnwys yn eich asesiad risg blynyddol (h.y. gweithgaredd nad yw'n greiddiol) neu'r rhai sy'n gofyn am fwy o fanylion (e.e. teithiau, sioeau, digwyddiadau mawr, aros dros-nos a.y.b.) mae'n rhaid i chi gwblhau asesiad risg ychwanegol.



Ar gyfer unrhyw weithgaredd lle mae angen aros dros-nos (yn y DU a thu hwnt) rhaid i chi gyflwyno asesiad risg ychwanegol - gan hefyd ddarparu amserlen a manylion y rhai sy'n cymryd rhan.

Dyma'r broses y dylech chi ei dilyn wrth ysgrifennu eich asesiad risg:

1. Ystyriwch eich gweithgaredd, e.e. paentio o ben ysgol.
2. Nodwch y peryglon, e.e. gweithio ar uchder.
3. Nodwch y canlyniadau posib, e.e. cwmpo oddi ar yr ysgol a thorri esgryn.
4. Nodwch y mesurau diogelwch, e.e. dylai'r ysgol fod mewn cyflwr da, gyda pherson arall yn dal ei gwaelod i'w chadw'n gadarn ar y ddaear.
5. Rhowch sgôr risg, e.e. Risg uchel, tebygolrwydd canolig.
6. Ystyriwch sut i weithredu, e.e. Galw am ambiwlans.

Dylech wneud hyn ar gyfer pob rhan o'ch gweithgareddau craidd gan ddefnyddio'r rhestr wirio a ddarperir ar y ffurflen asesu risg. Sylwch fod y rhestr peryglon wedi'i diweddarau eleni, felly bydd angen i chi adolygu'r hyn a gyflwynwyd gennych y llynedd i sicrhau bod yr holl beryglon wedi'u hystyried.

Ar y dudalen nesaf, rydym wedi cynnwys templed i chi; gallwch hefyd gael gafael ar gopi y gellir ei lawrlwytho yma: **MEWNOSOD**. Ond gwnewch yn siŵr eich bod chi'n mynychu'r sesiwn Hyfforddiant Clybiau a Chymdeithasau ar Asesiadau Risg!

Aseiad risg

Dyddiad cwblhau:

Enw'r Clwb/Cymdeithas

Cwblhawyd gan:

Rôl:

Math o weith-garedd	Nodi peryglon	Nodi canlyniadau	Risg heb ei rheoli (isell, canollg, uchell?)	Tebygol-rwydd y bydd damwain yn digwydd (1 annhebygol - 5 tebygol iawn)	Difrifoldeb y Canlyniad (1 isell iawn - 5 difrifoll iawn)	Nodi mesurau rheoli'r risg	Graddfa'r Risg ar ôl gweith-redu'r mesurau rheoli	Nodi sut i weithredu os bydd damwain yn digwydd



Mynychu hyfforddiant Pwyllgor Gwaith ar gyfer Clybiau a Chymdeithasau

Disgwylir i holl aelodau'r pwyllgor fynychu hyfforddiant. Mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i chi redeg eich clybiau yn effeithiol, yn ogystal â rhoi'r sgiliau i chi gynnal gweithgareddau clwb sy'n atyniadol a llwyddiannus.

Bydd eich Cydlynwyr Ymgysylltiad Myfyrwyr yn rhannu'r dyddiadau ar gyfer sesiynau hyfforddiant gyda'ch Pwyllgor Gwaith, felly gwnewch yn siŵr bod y rhestr aelodaeth ar gyfer eich pwyllgor yn gyfoes. Er bod disgwyl i chi fynychu hyfforddiant, rydyn ni'n gwybod bod gan fyfyrwyr ymrwymïadau eraill yn aml, a bod 'bywyd yn digwydd' weithiau. Os digwydd hyn, rhaid i chi hysbysu eich CCM cyn gynted â phosibl na allwch fynychu'r hyfforddiant, a lle bo hynny'n bosibl sicrhau bod o leiaf un aelod o'ch Pwyllgor ym mhob sesiwn. Wedi dweud hynny, rydym yn argymhell bod holl aelodau'ch Pwyllgor yn mynychu'r hyfforddiant, er mwyn i'ch clwb gael y gorau o'r sesiynau hyn.

Rhestr modiwlau hyfforddiant

Er y bydd dyddiadau sesiynau unigol yn amrywio gan ddibynnu ar argaeledd mynychwyr, roeddem am roi syniad i chi ynghylch y mathau o bynciau y byddwch chi'n ymdrin â nhw ar draws y gwahanol sesiynau. Trwy ein dull modiwlaid, byddwch chi'n derbyn sesiynau byr ar bynciau unigol pan fyddant ar eu mwyaf perthnasol. Er enghraifft, byddwn yn darparu hyfforddiant CCB tua diwedd y flwyddyn Academaidd.

Cynnal CCB ac etholiadau Pwyllgor Gwaith bob blwyddyn academiaidd a chyflwyno'r cofnodion i'r UM

Mae'n bwysig bod eich aelodau bob blwyddyn yn cael cyfle i bleidleisio ar bwy sy'n arwain eich cymdeithas y flwyddyn nesaf. Ond gall CCB ac etholiadau Pwyllgor Gwaith fod yn ddryslyd, yn enwedig os nad ydych wedi cynnal un o'r blaen. Y ffordd orau i egluro sut i gynnal CCB yw trafod y cofnodion.

Felly beth yw cofnodion?

Cofnodion, yw'r nodiadau ffurfiol a gymerir o'r cyfarfod; maen nhw'n cynnwys pwy oedd yno, beth oedd eich Agenda (trefn y pethau rydych chi'n eu trafod) a chanlyniadau'r etholiadau. Rydym wedi cynnwys enghraifft isod sy'n dangos i chi beth sydd angen i chi ei nodi; gall yr arddull / fformat amrywio, ond dylai'r cynnwys fod yn weddol debyg i hyn - os ydych chi'n ansicr, rhwch fwy o fanylion



yn hytrach na llai. Rydym wedi cynnwys enghraifft o sut olwg ddylai fod ar eich cofnodion er mwyn rhoi rhywfaint o arweiniad i chi yma: **MEWNOSOD**

Pan fyddwch chi'n trosglwyddo'r awenau i'ch Pwyllgor Gwaith newydd, bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor cyfredol wneud hynny'n iawn. Rydym yn gwybod bod llawer i'w drafod wrth drosglwyddo, felly rydym wedi cynnwys templed i chi yma:

MEWNOSOD

Gwybodaeth ychwanegol

Roeddem am gynnwys rhywfaint o wybodaeth allweddol arall a all eich helpu i gynnal a chymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau, gan ofalu am lesiant eich aelodau.

Cofnodi Damweiniau

Dylid rhoi gwybod i ni am bob achos o ddamweiniau, anafiadau neu bethau fu bron â digwydd, ddim hwyrach na 24 awr ar ôl y digwyddiad.

- <https://www.uwtsdunion.co.uk/student-resources/incident-report-form>
- Gall unrhyw un ddefnyddio'r ffurflen hon, a dylai pawb sy'n ymwneud â gweithgareddau fod yn ymwybodol o'r weithdrefn hon.
- Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes unrhyw un eisiau gwneud hawliad o dan ein hyswariant damweiniau personol, oherwydd os nad oes gennym ni adroddiad, mae'n ei gwneud yn llawer anoddach.
- Os bydd rhywbeth yn digwydd ar dir neu o fewn adeiladau'r Coleg neu'r Undeb, rhaid i Arweinydd y Gweithgaredd gysylltu ar unwaith ag aelod o staff, a fydd yn gyfarwydd â'r weithdrefn ddigwyddiadau berthnasol ac argaeledd y rhai a all gynnig Cymorth Cyntaf.

Ar ôl digwyddiad o'r fath, mae'n bwysig eich bod yn adolygu'ch asesiad risg ac yn ystyried pa newidiadau y gallid eu gwneud i osgoi digwyddiad fel hwn yn y dyfodol, yna ei ailgyflwyno i'r Undeb.

Os bydd marwolaeth, anaf difrifol neu ddigwyddiad sy'n peryglu bywyd, dylid mabwysiadu'r weithdrefn ganlynol:

- Bydd Arweinydd y Gweithgaredd yn cysylltu â'r gwasanaeth brys priodol, ac yn darparu unrhyw fanylion personol iddynt, gan gynnwys pwy yw'r perthynas agosaf, os yw'r wybodaeth hon ar gael.
- Os bydd marwolaeth, bydd Arweinydd y Gweithgaredd yn cysylltu â'r heddlu, a fydd yn hysbysu'r perthynas agosaf am y farwolaeth. Bydd Arweinydd y Gweithgaredd yn sicrhau na fydd unrhyw aelod o'r grŵp yn



hysbysu'r perthynas agosaf am y farwolaeth. Byddant hefyd yn cysylltu â phorthorion y brifysgol gyda'r holl fanylion iddynt eu trosglwyddo.

Diogelu Aelodau

Pwy yw eich aelodau?

- Dim ond pobl sydd wedi prynu aelodaeth trwy wefan yr Undeb sy'n aelodau o'ch clwb neu gymdeithas - nhw yw'r unig bobl sy'n gallu cymryd rhan mewn gweithgaredd craidd. Rhaid i chi gynnal gwiriadau aelodaeth rheolaidd ar y wefan i sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'ch gweithgareddau wedi prynu aelodaeth.

Diogelwch Ar-lein

Mae bod yn ddiogel ar-lein yn bwysig, yn enwedig ar hyn o bryd pan fydd llawer o'ch digwyddiadau'n cael eu cynnal ar-lein.

- Mae angen i chi fod yn ofalus gyda phostiadau sy'n cynnwys lluniau, gan sicrhau eu bod yn dderbyniol, a'ch bod wedi cael caniatâd i rannu lluniau o bobl.
- Ni ddylid rhannu dolenni cyfarfodydd â phobl ar hap; byddwch yn ddiogel gyda'r ffordd rydych chi'n rhannu dolenni Teams/Zoom, gall unrhyw un gael mynediad atynt os byddwch chi'n rhoi'r wybodaeth hon ar gyfryngau cymdeithasol.
- Ni ddylid gosod fideos amhriodol ar-lein.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch diogelwch ar-lein ar gyfer digwyddiadau clwb, cysylltwch â'ch CCM cyn gynted â phosibl, a byddant yn fwy na pharod i'ch helpu.

GDPR

Ystyr GDPR yw Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Beth mae hyn yn ei olygu i chi?

- Rydych chi'n gwbl gyfrifol am gydymffurfio â GDPR.
- Ni ddylech ond casglu, cadw a defnyddio data personol y mae gennych reswm da dros ei gael yn eich meddiant yn y lle cyntaf.



- Ni ddylech ond casglu, cadw, neu ddefnyddio data personol os yw'r rheiny mae'r data hwnnw'n perthyn iddynt yn ymwybodol o hynny, a'u bod yn cymeradwyo'r ffaith eich bod chi'n ei ddefnyddio.
- Dim ond am y rhesymau penodol a arweiniodd at roi'r data hwnnw i chi y dylech chi ddefnyddio data personol.
- Ni ddylech ond defnyddio data y gwyddoch ei fod yn gywir ac yn gyfredol.
- Dylech ond cadw data am y cyfnod sy'n angenrheidiol at y diben penodol y'i bwriadwyd.
- Rhaid i chi gadw'r data'n ddiogel a'i ddileu neu ei ddinistrio'n ddiogel pan fydd ei ddiben wedi cael ei gyflawni.
- Ni ddylech ryddhau data i unrhyw drydydd parti - mae hyn yn cynnwys caniatáu i unigolion weld data ei gilydd ar y wefan.

Os bydd diogelwch data mewn peryg, rhaid i chi gysylltu â Jeremy Harvey ar unwaith, gan roi manylion llawn am yr hyn sydd wedi digwydd.

Rheoli Digwyddiadau

Digwyddiadau yw un o'r pethau gorau am fod yn rhan o Gymdeithas, p'un a yw hynny'n eu cynllunio a'u cynnal neu eu mynychu. Rydym yn gwybod y gall cynllunio digwyddiad fod yn dasg enfawr, felly rydym wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth am bethau i chi eu hystyried. Mae'r ddogfen isod yn cynnwys gwybodaeth am pam rydym yn cynnal digwyddiadau, beth sy'n eu gwneud yn llwyddiannus, y Gylchred Gynllunio ac ystyriaethau allweddol. Hefyd ffyrdd o hyrwyddo'ch digwyddiad, rheolaeth yn y digwyddiad, wyneb-yn-wyneb ac ar-lein, ac adolygiadau ar ôl y digwyddiad i weld beth aeth yn dda a'r hyn y gallwn ni wella arno'r tro nesaf.

Mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am Leoliadau a sut i sicrhau bod eich digwyddiad yn gynhwysol ar gyfer yr holl fyfyrwyr a allai fod eisiau mynychu.

Nid yw'r ffaith ein bod wedi darparu'r wybodaeth hon yn golygu na allwch estyn allan at eich CCM am gymorth wrth gynllunio digwyddiad!



Teithiau

Os yw'ch Clwb neu Gymdeithas yn bwriadu mynd ar daith, mae yna sawl peth y mae'n rhaid i chi eu hystyried:

Asesiadau Risg Ychwanegol:

Mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon ar gyfer pob taith, gan gofio bod yn rhaid iddi fod yn gyfannol - gan gwmpasu'r holl risgiau cysylltiedig. Yn ymarferol mae hyn yn golygu y bydd angen i chi drosglwyddo cynnwys o'ch Asesiad Risg Craidd yn ogystal ag ychwanegu unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Aros Dros-nos?

Rhowch wybod i Undeb y Myfyrwyr os ydych chi'n bwriadu aros dros-nos a darparu amserlen o'ch gweithgareddau gan gynnwys cyfeiriadau, rhifau cyswllt a threfniadau teithio, gan gynnwys man cychwyn a gorffen y daith.

Manylion cyfranogwyr

Rhaid i hwn fod yn gofnod cywir o bawb sy'n mynychu'ch taith, gan gynnwys enwau a rhifau myfyrwyr pawb - os yw'r rhai sy'n cyfranogi'n newid ar ôl i chi gyflwyno'r ffurflen, mae'n rhaid i chi anfon copi wedi'i ddiweddarau atom. Mae'n arbennig o bwysig bod eich rhestr cyfranogwyr yn gywir.

Cymorth Cyntaf

Rhaid bod gennych chi o leiaf 2 o bobl sydd wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf yn bresennol ar gyfer pob taith. Dylai fod 1 sy'n meddu ar sgiliau cymorth cyntaf ar gyfer pob 10 aelod sy'n mynd ar y daith.